



Ffocws ar Ddwyrain Caerdydd

Bydd y Blodau Bendigedig yn ôl!

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.lletycaerdydd.co.uk

Rydym yn gwybod bod llawer o denantiaid a lesddeiliaid y Cyngor yn hoffi treulio amser yn yr ardd a thyfu pethau.

Dyma eich cyfle i ddangos i ni eich dawn tyfu a phrydferthwch eich gardd. Mae gennym bedwar categori i chi gymryd rhan ynddynt – Gardd Flaen, Gardd Gefn, Man Cyfyngedig a Gardd Gyffredin/Gymunedol.

Mae pethau am ddim i bob cyfranogwr. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Cynnwys Tenantiaid ar 029 2053 7511 neu anfonwch e-bost atom: cynnwysenantiaid@caerdydd.gov.uk neu ewch i'r gwefan yn www.cardifftenants.co.uk



Headline Tweets

- @livingstreets:
Cerddwch fwy ym mis Mai. Ymrwymwch i gerdded 20munud y dydd â ni ar gyfer Mis Cerdded Cenedlaethol.
- @ECLPCF: Angen swydd? Ddim yn siŵr lle mae dechrau? Ydych chi wedi clywed am Raglen Esgyn? <https://t.co/NETZpCWd>

Yr wythnos hon mae'n bleser gennym rannu'r canlynol:

Helfa Wyau Pasg Tredelerch 2016

Ddydd Sul y Pasg, aeth cannoedd o breswylwyr Tredelerch a'r ardal ar helfa wyau Pasg er gwaethaf y tywydd gwael.

Cynhaliwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau lleol cyfarwydd a Heddlu De Cymru, a dechreuodd y digwyddiad gyda Gorymdaith Hetiau Pasg.

Yna, roedd gweithgareddau eraill mewn nifer o adeiladau cymunedol o gwmpas Tredelerch, gan gynnwys castell neidio, sw cyffwrdd anifeiliaid eggsotig a barbeciw ar derfyn dydd!

Bu'r digwyddiad rhad ac am ddim yn boblog-

aidd iawn yn y gymuned, ac mae cynlluniau'n mynd rhagddynt ar gyfer digwyddiad y flwyddyn nesaf! Am ragor o wybodaeth a lluniau o'r digwyddiad hwn, gallwch fynd i wefan Fforwm Tredelerch: www.rumneyforum.org.



Proffil Partner:

Full Circle

Mae [Full Circle Education](http://www.fullcircleeducation.org) yn fenter gymdeithasol yng Nghaerdydd sy'n gweithio ledled de Cymru a thu hwnt er mwyn cynorthwyo ysgolion a lleoliadau ieuencid a chymunedol i wella lles plant a phobl ifanc.

Eu nod yw cysylltu ieuencid â'u potensial di-ben-

draw, dod o hyd i syniadau newydd er mwyn cysylltu pobl ifanc ag addysg a thynnu'r rhwystrau i lwyddo, presenoldeb ac uchelgais.

Gellir osgoi llawer o'r heriau sy'n wynebu plant a phobl ifanc heddiw. Maent yn creu syniadau arloesol a chyffrous er mwyn codi uchelgeisiau pobl ifanc, hyrwyddo cydraddoldeb yn y dosbarth, codi hunan-barch a llawer mwy; maent yn gwneud hyn gyda blynyddoedd o brofiad yn y maes.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'r wefan yn www.fullcircleeducation.org